LC355

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 i godi'r trothwy lle mae'n ofynnol i'r cynghorau cymuned baratoi cyfrifon incwm a gwariant ac i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol gyhoeddi'r llythyr archwilio blynyddol a gânt oddi wrth eu harchwilydd.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol atynt yn ffurfiol o dan RhS 11.5.

### Sylwadau Cyffredinol

### Rheoliad 2

Yn y testun Cymraeg mae yna gyfeiriad mewn cromfachau at y fersiwn Saesneg o'r term sydd wedi'i ddiffinio ond nid oes cyfeiriad cyfatebol yn y testun Saesneg at y fersiwn Gymraeg.

### Rheoliad 3

Dylai 'are' fod yn 'is' yn y testun Saesneg.

Mae angen dileu'r geiriau sydd ar ôl yn rheoliad 6(3)(k) o reoliadau 1996. Rhagdybir y dylid eu dileu drwy reoliadau cyfatebol sydd i'w gwneud ar gyfer Lloegr gan fod y geiriau hyn yn gymwys yn Lloegr yn unig.

**Rheoliad 5**

Rhagdybir bod yr un rheoliad 16A i'w fewnosod ar gyfer Lloegr.  Os nad yw,  byddai o gymorth i'r defnyddwyr pe bai testun 16A yn dangos ei fod yn gymwys yng Nghymru yn unig.

Rhagdybir bod "on payment of a reasonable sum" yn golygu drwy dalu unrhyw swm rhesymol y bydd y corff perthnasol yn penderfynu arno.  Byddai'n well efallai petai hynny wedi'i ddatgan yn ddiamwys.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Tachwedd 2001